



31. PEN-BLWYDD RAJU (Stori o India)

Yn ystod y blynyddoedd y bu Raju'n byw gyda'i nain a'i ewyrth Ram, ni chafodd erioed ddathlu'i ben-blwydd. Ni wyddai hyd yn oed pryd yr oedd ei ben-blwydd. Gŵr creulon oedd ei ewyrth Ram ac arferai orfodi Raju i gerdded y strydoedd yn cardota am ei fywoliaeth. Yna, pan ddeuai Raju ag ychydig geiniogau adref, byddai'n eu cipio oddi arno ac yna'n achwyn nad oedd rhagor o arian. Nid oedd Raju'n cael digon i'w fwyta ganddo. Ac weithiau collai ei dymer a'i guro.

O'r diwedd, ac yntau wedi cael digon ar y fath driniaeth, penderfynodd Raju redeg i ffwrdd. Ond i ble yr âi? Dim ond chwech oed ydoedd ac nid oedd ganddo unrhyw berthnasau y gallai droi atynt. Yna cofiodd fod nifer o blant tebyg iddo'n byw ar y platfform trên i lawr yn yr orsaf.

Felly, un min nos, sleifiodd y bachgen bach o'r tŷ a rhedeg i ffwrdd i ymuno â hwy. O hynny ymlaen yn hytrach na chardota ar gyfer ei ewythr, treuliai ei amser yn casglu hen bapurau a photeli plastig i'w gwerthu i'r masnachwyr. Y rhan fwyaf o ddyddiau, enillai ddigon o arian i dalu am un pryd o fwyd syml, ac weithiau câi ddigon am drip i'r sinema hyd yn oed. Byddai'n aml yn ofnus,

yn arbennig pan ddeuai'r plismyn â'u ffyn hir i gerdded y plattform. Rhedai Raju i ffwrdd bob tro y gwelai hwy'n dod. Ond un tro methodd â dianc yn ddigon cyflym. 'Mae pobl wedi cael digon arnat ti'n eu poenydio nhw, y cardotyn bach,' meddai swyddog tal wrth ei ddal. 'Rwy'n mynd â ti i swyddfa'r heddlu.'

Roedd swyddfa'r heddlu yn erchyll. Gorfodwyd Raju gan y plismon i ddweud wrtho pwy ydoedd ac o ble y daeth. Yna cafodd ei roi dan glo mewn cell dywyll laith. 'Rydyn ni am dy gadw yma hyd nes daw dy nain i dy nôl,' meddai.

Nid oedd nain Raju'n rhyw falch iawn o ddod o hyd i'w hŵyr mewn cell. Ond addawodd i'r swyddog yr âi ag ef adref i edrych ar ei ôl. Yr oedd Raju'n benisel. Ni wyddai a ddylai deimlo'n hapus neu'n drist. Efallai, wedi'r cyfan, ei bod hi'n ei garu. Efallai y byddai pethau'n wahanol nawr. Ond na. Yn ôl yn slymiau Bombay roedd Ewythr Ram mor greulon ag erioed. Felly, unwaith eto, dihangodd Raju am yr orsaf.

Y tro hwn darganfu ffordd newydd o wneud arian. Eisteddai â'i gefn at y wal yn clecian dau frws glanhau esgidiau nes byddai pâr o draed yn aros o'i flaen. Am ddwy riwpi byddai'n rhwbio'r esgidiau mor lân nes y byddent yn disgleirio. Roedd glanhau esgidiau'n talu'n well na chasglu poteli plastig a phapurau; ond cyn hir daeth gyrfa Raju fel glanhawr esgidiau i ben. Un bore, wrth iddo redeg ar hyd y llwybr, llithrodd ar groen banana. Nawr, efallai bod hynny'n swnio'n ddoniol ond nid felly roedd hi mewn gwirionedd oherwydd pan lithrodd Raju syrthiodd i'r gwter a thorri ei arddwrn. Wrth gwrs ni wyddai Raju fod ei arddwrn wedi torri. Y cwbl a wyddai ef oedd ei fod yn boenus, yn boenus iawn – yn rhy boenus i godi brws hyd yn oed, heb sôn am lanhau esgidiau. Beth fyddai'n ei wneud? Dim gwaith – dim arian. Dim arian – dim bwyd.

Y diwrnod hwnnw, fel arfer, daeth miloedd o deithwyr trwy'r orsaf ar eu ffordd i ddal eu trenau. Brysiodd pawb heibio'r bachgen bach oedd yn swatio gerllaw'r plattform yn llefain mewn poen a newyn. Ni sylwodd y rhan fwyaf arno. Ond fel roedd pethau ar fin tawelu daeth dwy wraig tuag ato, dwy wraig nodweddiadol Indiaidd – llygaid tywyll, gwallt tywyll a gwisg draddodiadol o diwnig hir a throwsus. Ond yn wahanol i bawb arall ni cherddodd y rhain

heibio. Fe arhosodd y ddwy oherwydd iddynt weld dagrau Raju ac roedd arnynt eisiau ei helpu.

Yn y Beibl dywed Iesu stori am ddyn a wnaeth rywbeth tebyg. Samariad oedd ef ac arhosodd i roi cymorth i deithiwr a gafodd ei guro gan ladron.

‘Fy enw yw Sapria,’ meddai'r hynaf o'r ddwy wraig wrth Raju wrth gyflwyno'i hunan. ‘A dyma Rena,’ meddai gan bwyntio at ei ffrind. ‘Fe hoffem i ti ddweud wrthym ni pam rwy'ti'n llefain.’

Ochneidiodd Raju a dangos ei arddwrn dolurus chwyddedig.

‘O diar! Dyna anaf cas.’ Edrychai Sapria a Rena'n wir bryderus. Siaradodd y ddwy â'i gilydd am ennyd. Yna, dyma nhw'n cynnig mynd â Raju at y meddyg. Fedrai Raju ddim credu ei glustiau. Fu neb erioed mor garedig wrtho o'r blaen. Yr oedd triniaeth feddygol mor gostus, ond dywedodd y ddwy wraig wrtho am beidio â phoeni. Fe dalent hwy'r bil.

Yn stori Iesu fe dalodd y Samariad trugarog gostau'r teithiwr a anafwyd hefyd. Ond aeth Sapria a Rena un cam ymhellach. Nid yn unig aethant â Raju at y meddyg a thalu i'w fraich gael ei rhoi mewn plastr, ond yn fuan ar ôl ei gyfarfod am y tro cyntaf aethant ag ef adref i fyw gyda hwy.

‘Fe wyddon ni fod pethau wedi bod yn galed i ti, Raju,’ meddent wrtho. ‘Ond mae yna Dduw yn y nefoedd a'i enw yw Iesu. Mae'n dy garu di ac rydyn ni'n credu ei fod yn dweud wrthyn ni am agor cartref i blant fel ti. Beth sydd gen ti i'w ddweud? Wyt ti am fod yn rhan o'n teulu ni?’

Grêt! Roedd Raju wrth ei fodd.

Dros y flwyddyn nesaf roedd bywyd mor braf fel bod Raju'n credu mai breuddwyd oedd y cyfan. Am y tro cyntaf roedd ganddo ddigon o fwyd i'w fwyta a dillad i'w gwisgo. Câl hefyd fynd i'r ysgol.

Ac yna daeth y dydd pan eisteddodd ef a'i bum brawd mewn cylch ar y llawr a gwneud rhywbeth arbennig iawn. Yng nghanol y cylch roedd dwy sach blastig. Mewn un sach roedd darnau bychan o bapur, ac arnynt roedd Rena wedi ysgrifennu rhifau un i dri deg. Ar y papurau yn y sach arall roedd hi wedi ysgrifennu enwau deuddeg mis y flwyddyn. Cafodd y ddwy sach eu pasio o amgylch

y cylch a chymerodd pob plentyn un o'r rhifau ac un o'r misoedd.

Pan ddaeth tro Raju caeodd ei lygaid a chymryd darn o bapur o'r ddwy sach.

'Beth maen nhw'n ddweud? Beth maen nhw'n ddweud?'

'Y rhif yw un deg saith a'r mis yw Gorffennaf,' meddai Sapria gan wenu.

'Hwrê!' gwaeddodd Raju.

Fedrwch chi ddyfalu pam yr oedd mor hapus?

Roedd newydd gael pen-blwydd iddo'i hun. Yr oedd yn dal heb fod yn gwybod dyddiad gwirioneddol ei ben-blwydd, ond nid oedd hynny'n ei boeni. Y peth pwysig oedd fod y Duw a'i carai wedi caniatáu iddo fod yn rhan o deulu a'i carai hefyd. Bob blwyddyn wedi hynny cafodd ddathlu ei ben-blwydd ar yr ail ar bymtheg o Orffennaf gyda'i deulu.

HYD: 6 munud

NEGES: Mae dilyn Iesu'n golygu bod yn barod i helpu rhai mewn angen.

DARLLEN: Luc 10: 29–37